

Jane Hutt AS/MS  
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
Minister for Social Justice



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH-/2025/22

John Griffiths AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai  
Senedd Cymru

[SeneddTai@senedd.cymru](mailto:SeneddTai@senedd.cymru)

14 Mehefin 2022

Annwyl John,

Diolch ichi am lythyr y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 26 Mai 2022. Rwy'n croesawu eich ystyriaeth o'n gwaith parhaus i gefnogi anghenion pobl o Wcráin sy'n cyrraedd Cymru.

Mae'r cynllun Cartrefi i Wcráin, y mae pobl o Gymru wedi bod yn rhan ohono drwy weithredu yn hael iawn fel noddwyr, a lle mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel uwch-noddwr ar hyn o bryd, wedi ei gynllunio gan Lywodraeth y DU. Mae wedi gosod y trefniadau fisáu ar gyfer pobl sy'n dod i'r DU; y gofynion i gyflawni gwiriadau ar lety a'r cyfraddau cyllido sydd ar gael i awdurdodau lleol ac unigolion sy'n gweithredu fel noddwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r cynllun Cartrefi i Wcráin – a gweithredu fel uwch-noddwr – gan ein bod yn Genedl Noddfa ac am gefnogi pobl o Wcráin, menywod a phlant yn aml, sy'n dianc rhag y rhyfel. Hyd yma, mae mwy na 5,500 o fisáu wedi eu rhoi i bobl ddod i Gymru ac mae mwy na 2,100 o bobl o Wcráin wedi cyrraedd Cymru drwy'r cynllun Cartrefi i Wcráin.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), y trydydd sector ac eraill i ddarparu amgylchedd cefnogol a chroesawgar i gynifer o bobl o Wcráin â phosibl. Nid yw'r cynllun Cartrefi i Wcráin yn berffaith, ond rydym yn gwneud beth allwn ni o fewn iddo er mwyn cynnal ein dyhead o fod yn Genedl Noddfa.

Oherwydd strwythur y cynllun, ni allwn sicrhau bod ymweliadau cartref bob amser yn cael eu cynnal cyn i bobl o Wcráin ymuno â'u noddwyr unigol. Mae cynllun Llywodraeth y DU yn galluogi noddwyr a phobl o'r Wcráin i baru â'i gilydd, heb fod awdurdodau cyhoeddus Cymru yn cael gwybod. Dim ond pan fydd cais am fisa yn cael ei gwblhau y cawn wybod bod rhywun wedi eu paru â'i gilydd. Oherwydd nifer y ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno, mewn rhai achosion bydd ymweliadau cartref yn gorfod cael eu cynnal yn fuan ar ôl i bobl o

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales](mailto:Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wcráin gyrraedd. Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n galed iawn i gwblhau'r gwiriadau hyn cyn gynted â phosibl.

Rydym wedi cynllunio ein llwybr uwch-noddwyr fel y gellir cynnal gwiriadau archwilio a diogelu cyn i bobl o Wcráin symud ymlaen o lety cychwynol a'n Canolfannau Croeso i lety cam nesaf, pan fo'r llety hwnnw yn drefniant lletya.

Ym mhob achos, bydd disgwyl i'r rhai sy'n lletya fod wedi pasio gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a bod wedi cael archwiliad o'u heiddo er mwyn sicrhau ei fod o safon ddigonol a bod ymweliad llwyddiannus wedi ei gynnal pan fydd yr unigolyn neu'r teulu wedi cyrraedd o Wcráin er mwyn sicrhau bod pethau'n mynd yn dda.

Mae'r canllawiau i noddwyr, sy'n ymdrin â'r gwiriadau hyn ar gael yma: [Cartrefi i Wcráin: canllawiau i noddwyr \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#) ac mae ein canllawiau diogelu ar gael yma: [Cartrefi i Wcráin: canllawiau ar ddiogelu a chaethwasiaeth fodern | LLYW.CYMRU](#). Mae'r rhain yn cael eu diweddarau yn rheolaidd wrth i ni, a'r llywodraethau datganoledig eraill a Llywodraeth y DU, barhau i ddysgu wrth weithredu'r cynllun.

Rydym yn cyfarfod ag awdurdodau lleol sawl gwaith yr wythnos i ateb cwestiynau, rhannu arferion da a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, ac rydym wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, sydd ar gael yma: [Cartrefi i Wcráin: canllawiau i awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU](#)

Mae gan awdurdodau lleol eisoes ddyletswyddau yn ymwneud â thai, iechyd amgylcheddol a gwasanaethau cymdeithasol – mae staff yn ymwybodol o sut i asesu safonau eiddo a risgiau diogelu. Mae Panel Arbenigwyr Tai Partneriaeth Diogelu'r Cyhoedd Cymru hefyd wedi cwrdd yn rheolaidd i rannu arferion da, i drafod a datrys sefyllfaoedd cymhleth ac i annog cysondeb o ran gweithredu. Pan fo awdurdodau lleol yn cael cymorth gyda gwiriadau eiddo neu ddiogelu, maent yn tynnu ar gapasiti sefydliadau eraill sydd ag arbenigedd perthnasol, er enghraifft Cymdeithasau Tai. Rydym wedi gofyn i awdurdodau lleol fod yn bragmataidd wrth gynnal asesiadau eiddo. Rydym yn cydnabod y risgiau cymharol o ystyried yr amgylchiadau a brofwyd gan bobl o Wcráin cyn iddynt deithio i'r DU, er hynny mae'n bwysig nad yw'r safonau hyn yn cael eu gwanhau mewn ffordd sy'n rhoi unrhyw un mewn perygl.

Drwy ein hymwneud ag awdurdodau lleol, rydym wedi bod yn archwilio gwahanol ffyrdd o fynd i'r afael â phroblemau capasiti wrth iddynt ddod i'r amlwg. Mae trefniadau yn eu lle i gefnogi archwiliadau eiddo drwy Cartrefi Cymunedol Cymru ac aelodau eu cymdeithas dai, ac i gefnogi gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy Arolygiaeth Gofal Cymru. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru i gynyddu nifer y cyfieithwyr Wcreineg sydd yn byw yng Nghymru y gall cyrff cyhoeddus eu defnyddio. Mae gwaith i'w wneud eto o ran sicrhau bod y materion capasiti yn cael eu datrys ond rydym yn parhau i weithio i ateb y galw.

Mae cysylltiadau cryf gan awdurdodau lleol gyda sefydliadau trydydd sector yn eu hardaloedd. Daeth cydweithio yn elfen gadarn o'r ymateb yn ystod y pandemig ac mae wedi darparu llwyfan ar gyfer cydweithio i gefnogi pobl o Wcráin. Ar lefel genedlaethol, mae fy swyddogion yn cynnal cyfarfodydd wythnosol ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Mae nifer y bobl o Wcráin sydd yn cyrraedd Cymru, a pha mor gyflym maent yn dod, yn ei gwneud yn debygol y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu peth pwysau. Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd er mwyn nodi a datrys hyn cyn gynted â phosibl.

Mae £10,500 y cynllun Cartrefi i Wcráin ar gyfer pob buddiolwr o gymorth i sicrhau bod gwasanaethau ar gael ond nid yw'n ddigonol i oresgyn yr holl heriau fydd yn cael eu nodi. Er enghraifft, mae cynlluniau adsefydlu blaenorol wedi darparu tariff ar wahân i dalu am gostau iechyd, ond nid yw hynny na chyllid ar gyfer hyfforddiant iaith wedi'i ddarparu yn yr achos hwn. Yn ogystal â hynny, does dim cyllid o gwbl i bobl sy'n cyrraedd drwy'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin ac mae hyn yn creu gwahaniaethau annefnyddiol yn y cymorth sydd ar gael. Rwyf wedi'r codi'r mater hwn sy'n ymwneud â chyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus droeon yn fy nghyfarfodydd rheolaidd gyda'r Gweinidog Ffoaduriaid, yr Arglwydd Harrington.

Does dim sicrwydd gennym y bydd Llywodraeth y DU yn estyn y cyllid i ail neu drydedd flwyddyn y fisâu i bobl Wcráin yn yr un modd ag y mae pobl sy'n cyrraedd o Affganistan wedi eu cefnogi – mae'r holl bobl o Wcráin sy'n cyrraedd o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin a'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin wedi cael fisâu i aros yn y DU am hyd at dair blynedd ar ôl iddynt gwblhau'r gwiriadau biometrig angenrheidiol. Os na cheir y cyllid hwn, bydd darparu'r holl wasanaethau cymorth rydym am eu rhoi yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein cyllidebau.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau bod cyllid sylweddol ar gael o'n cyllidebau i gefnogi pobl o Wcráin. Mae hyn yn cynnwys cost llety cychwynnol a gofal cofleidiol i bobl sy'n cyrraedd drwy lwybr Uwch-Noddwr Llywodraeth Cymru a chost y Ganolfan Gyswilt. Mae'r rhain yn gydrannau hanfodol o ran ein gallu i gefnogi pobl yn iawn. Gyda'n hawdurdodau lleol a'n partneriaid eraill, mae gennym gyfrifoldeb darparu sylweddol iawn sydd yn newydd, yn gymhleth ac yn anrhagweladwy.

Ar hyn o bryd rydym yn archwilio opsiynau i ddarparu gwasanaethau cynghori ac eiriol i bobl o Wcráin sydd wedi cyrraedd Cymru, gan gynnwys fforwm cefnogaeth gan gymheiriaid a chefnogaeth gwaith achos dros Gymru gyfan. Rydym hefyd yn bwriadu darparu peth cymorth cofleidiol i gefnogi teuluoedd sydd wedi aduno o dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin er gwaethaf y diffyg cyllid gan Drysorlys y DU. Gobeithiaf allu darparu manylion ychwanegol am y cynlluniau hyn yn fuan.

Mae cynllun Cartrefi i Wcráin Llywodraeth y DU yn gofyn am ymrwymiad o chwe mis gan noddwyr ond gall lleoliadau fod yn hwy na hynny. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli na fydd llawer o bobl sy'n lletya wedi gwneud rhywbeth fel hyn o'r blaen ac mae'n bosibl na fyddant yn adnabod y person y byddant yn ei letya, sy'n cynyddu'r risg y gallai'r lleoliad fethu.

I fynd i'r afael â hyn, rydym yn gweithio gyda'r trydydd sector i drefnu sesiynau gwybodaeth, hyfforddiant a sesiynau cefnogaeth gan gymheiriaid ar gyfer y rheini sydd yn cynnig llety yng Nghymru. Ein nod fydd cefnogi'r rhai sy'n lletya i daclo'r heriau maent yn eu hwynebu, i wella safon y cymorth mae pobl o Wcráin yn ei gael ac i leihau nifer y lleoliadau sydd yn methu ac yn achosi digartrefedd sydyn.

Yn ddiweddar fe wnaethom ysgrifennu at bob aelwyd yng Nghymru wnaeth fynegi diddordeb mewn cefnogi pobl o Wcráin ond nad ydynt wedi cael eu paru ag unrhyw un eto. Fe wnaethom holi os oeddynt yn parhau i fod â diddordeb mewn cefnogi rhywun ac rydym wedi pasio manylion pawb oedd â diddordeb at yr awdurdodau lleol perthnasol. Mae gwiriadau yn cael eu cynnal ar y lletywyr posibl hyn a byddant yn ffurfio cydran bwysig o lety un ai ar gyfer y rheini y mae eu lleoliadau cychwynnol wedi methu neu ar gyfer pobl sydd wedi cael llety mewn Canolfannau Croeso.

Rydym wedi ymrwymo i helpu pawb sydd angen cymorth ar draws Cymru. Rydym yn buddsoddi mwy na £197 miliwn eleni'n unig mewn gwasanaethau cymorth tai a digartrefedd

a'r ffigwr uchaf erioed sef £310 miliwn mewn tai cymdeithasol. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddarparu mwy o gartrefi cymdeithasol yng Nghymru fel sy'n cael ei ddangos gan ein hymrwymiad i ddarparu 20,000 o dai newydd carbon isel i'w rhentu yn y sector cymdeithasol. Mae'r pwysau yn y gwasanaethau tai yn ystyriaeth allweddol yn yr ymateb i argyfwng Wcráin ac mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud i gynyddu llety tymor canol a thymor hir er mwyn cynorthwyo'r ymateb i'r argyfwng yn Wcráin ac i fynd i'r afael â'r pwysau ehangach ar ddarpariaeth llety dros dro.

Yn ogystal â hyn, rydym yn adeiladu capasiti yn y sector tai i sicrhau y gellir gwneud lleoliadau mewn tai cymdeithasol neu yn y sector rhentu preifat. Bydd y rhain yn cael eu cydbwysu gydag anghenion grwpiau eraill sydd hefyd yn awyddus i symud allan o lety dros dro yn unol â'n hethos Cenedl Noddfa ac mewn cydnabyddiaeth o'r pwysau sylweddol sydd ar wasanaethau tai. Rydym yn sianelu cynigion llety drwy awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i gydbwysu a blaenoriaethau anghenion lleol yr holl grwpiau. Rydym yn defnyddio cyllid cyfalaf i allu cynnig llety ac yn nodi'n glir bod angen i awdurdodau lleol ddefnyddio'r capasiti y bydd hyn yn ei greu fel y gwelant orau i ddiwallu anghenion yr amrywiaeth o grwpiau sydd angen llety yn eu hardal. Fe wnaethom gyflwyno y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn sydyn ac rydym eisoes wedi cymeradwyo buddsoddiad o oddeutu £8 miliwn er mwyn i Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddechrau defnyddio 280 o eiddo dros y misoedd nesaf, eiddo na fyddent wedi bod ar gael fel arall.

Mae taliadau 'diolch' o £350 y mis yn cael eu talu gan Lywodraeth y DU i letywyr o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin. Bwriad y taliad yw talu am gostau lletya unigolion o Wcráin. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth y DU wedi ymrwymo unrhyw gyllid y tu hwnt i'r 12 mis cyntaf o gytundeb nawdd. Rydym yn bwriadu darparu taliadau 'diolch' i bobl sy'n helpu awdurdodau lleol i letya pobl o Wcráin a ddaeth i Gymru drwy'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin ond y mae eu cynnig o lety wedi methu.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn darparu teithiau trenau am ddim i bob ffoadur ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr bysiau wedi ymuno â chynllun Tocyn Croeso Llywodraeth Cymru sy'n cynnig teithiau am ddim ar fysiau i ffoaduriaid. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r cynlluniau cychwynol (oedd am 6 mis) i ystyried y ffordd orau o gefnogi pobl sy'n byw yng Nghymru.

Drwy gydol y pandemig fe welsom bwysigrwydd a phŵer cysylltiadau gwaith effeithiol rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Rydym yn ehangu'r cysylltiadau hyn drwy barhau i weithio gyda'r trydydd sector i nodi a chydlynu cymorth i bobl o Wcráin a lletywyr ar draws Cymru. Rwy'n gyfrifol am alw Grŵp Cymorth Trydydd Sector at ei gilydd, sydd yn fforwm gwerthfawr er mwyn rhannu gwybodaeth, cyfleoedd ac adeiladu capasiti i gefnogi pobl ar draws Cymru.

Bydd y tariff o £10,500 y pen fesul person a'r cyllid addysg ychwanegol yn cael eu defnyddio i gefnogi pobl sydd yn cyrraedd Cymru. Mae ffynonellau ychwanegol o gymorth y tu hwnt i hyn. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, Cronfa Croeso Cenedl Noddfa Sefydliad Cymunedol Cymru, y cyfrannodd Llywodraeth Cymru £1 miliwn iddi, yn ogystal â chymorth cyllidwyr grantiau eraill yng Nghymru. Mae nifer o gyllidwyr, sefydliadau trydydd sector, grwpiau cymunedol ac actifyddion eisoes yn darparu cymorth allweddol.

Mae Awdurdodau Lleol wedi ymateb yn sydyn ac yn effeithiol iawn i gefnogi pobl sy'n cyrraedd Cymru o Wcráin a bu'n berthynas agos iawn gyda hwy a Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol mae timau tai ac adsefydlu arbenigol yn arwain ar yr ymateb ac mae eu hadnoddau o dan bwysau oherwydd maint a nodweddion newydd y model Cartrefi i Wcráin. Mae rhai awdurdodau lleol wedi gallu defnyddio contractau presennol cymorth adsefydlu

ffoaduriaid i roi swyddogaethau cymorth gwaith achos ar waith yn sydyn yn eu hardaloedd. Mewn rhai llefydd bu'n rhaid recriwtio staff ychwanegol a chreu capasiti ychwanegol.

Rydym yn archwilio trefniadau ar gyfer lleoliadau brys dros dro ar gyfer adegau pan fydd lleoliadau lletya yn methu. Byddwn yn ystyried y potensial ar gyfer lleoliadau seibiant fel rhan o'r gwaith hwn.

Oherwydd yr amrywiaeth eang o faterion rydym wedi bod yn ymdrin â hwy dros yr wythnosau diwethaf a'r angen i flaenoriaethu ymdrechion o ran lleihau rhwystrau mynediad a sicrhau bod lleoliadau llety cychwynnol yn ddiogel ac ar gael, rydym wedi gorfod gweithio gam wrth gam ar swyddogaethau cymorth ail reng. Fodd bynnag, gobeithiaf y bydd yr ymateb hwn yn rhoi sicrwydd ichi bod nifer o'r gwasanaethau hyn yn mynd rhagddynt ac ar fin gorffen yn fuan.

Eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Jane Hutt AS/MS**

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
Minister for Social Justice